# YMGYRCH CYMRU

**CYLCHLYTHYR AELODAU CND CYMRU** RHIF 12 MAI/MEH/GOR 1989 **(Copïau ychwanegol 15c)**

# RHOI Y DEINOSORIAID YN ÔL YN YR AMGUEDDFA




Wrth i NATO ddathlu'i phenblwydd yn ddeugain oed, lansiodd CND Cymru ymgyrch newydd i nodi diweddglo "oes y deinosoriaid".

Mae grwpiau CND drwy Gymru benbaladr yn dosbarthu taflen newydd ddwyieithog sy'n codi amheuon ynghylch agweddau hen-ffasiwn NATO a llywodraeth Thatcher.

Cyhoeddwyd y sialens i NATO — wedi deugain mlynedd o'r rhyfel oer — gan Isobel Lindsay, is-lywydd CND Yr Alban, y siaradwr gwadd yng nghynhadledd CND Cymru yn Aberystwyth eleni.

Bu'n feirniadol iawn o'r Ysgrifennydd Tramor, Syr Geoffrey Howe, sy' wedi cyhuddo Gorbachev o "competitive striptease" oherwydd ei gynigion i dorri ar arfau.

"Ymhell o fod yn cwyno ynghylch y Sofietiaid, mi ddylen ni fod yn ymuno'n frwdfrydig â nhw. Mae Gorbarchev wedi cynnig nifer o syniadau pwysig ym maes diarfogi un-ochrog, ac mi ddylem ni fod yn ymateb yn gadarnhaol, bositif.

Yn lle hynny, wrth i Gorbachev dynnu'i grysbas, mae Mrs Thatcher yn gwisgo'i siwt eira, ac y mae Mr Kinnock yn chwilio am ddillad isa cynnes.

Dydi'r cyhoedd ym Mhrydain ddim yn sylweddoli mai ehangu'r ddarpariaeth niwcliar ydy nod eu llywodraeth, nid cwtogi arni.

Dylem ni ddim bod yn dathlu deugeinfed penblwydd NATO y mis nesaf. Dylem gynllunio sut i ddileu'n raddol y system bloc militaraidd yn Ewrop. Mae rhannu'r cyfandir yn ddau wersyll arfog yn beryglus, yn wastraffus ac yn wirion pan nad oes sail i'r gwahanu hyn."




NATO Privatisation! Military top-brass escorting Mrs Thatcher in Cardiff on April 1st.

PRIFATEIDDIO NATO! Uwch-swyddogion Militaraidd yn arwain Mrs Thatcher yng Nghaerdydd ar Ebrill 1af.

Atseinir dadansoddiad Isobel Lindsay yn nhaflen newydd CND Cymru sy'n tynnu sylw at y ffaith fod NATO yn golygu 157 Safle Americanaidd, 1,300 o arfau niwcliar, a'r bygythiad o ryfel na fedrai neb i ennill, i Brydain.

"Am ddeugain mlynedd, bu Ewrop yn rhanedig. Mae dau gawr militaraidd — NATO a'r Warsaw Pact wedi wynebu'r naill a'r llall, yn or-arfog o daflegrau niwcliar," yn ôl y daflen.

Dylem ni aros fel oeddem ni, yn drwch o arfau, yn byw bob amser ar ddibyn? Na, does dim angen parhau fel hyn — wedi'r cwbl, mae oes y deinosoriaid drosodd.

Dywedodd yr Ymgyrchwr James Stewart: "Rydym ni'n gobeithio ail-adrodd llwyddiant ein hymgyrch wybodaeth y llynedd, pan dderbyniodd dros ganmil o dai yng Nghymru ein taflen ynghylch Trident.

Â'n nod ni yn Gymru ddi-niwcliar mewn Ewrop ddi-niwcliar, rydym ni'n dangos fod gennym ni'r weledigaeth sydd ei angen i chwalu hen rwygiadau'r Rhyfel Oer, a rhoi'r deinosoriaid yn ôl lle maen nhw'n perthyn — yn yr Amgueddfa."

## Tu Mewn

**Taflen ymgyrch NATO.**
**(Mwy ar gael oddi wrth James Stewart, Ffôn 0222 832 275).**
**Catalog yr Haf**

# 86% YN PLEIDLEISIO DROS DIARFOGI NIWCLIAR

**Tanlinellwyd arwahanrwydd safiad y Ceidwadwyr ar faterion amddiffyn a pholisïau tramor yn ystod yr isetholiad diweddar ym Mhontypridd. Manteisiodd y Blaid Lafur ar y cyfle i ddieithrio'u hunain oddi wrth CND yn hytrach nag oddi wrth y Torïaid.**

**Pleidleisiodd 86% o'r etholaeth i ymgeiswyr oedd wedi mynegi eu cefnogaeth i gymryd camau breision tuag at ddiarfogi niwcliar, gan gynnwys gwaharddiad llwyr ar brofion ac adolygiad o bolisi 'defnydd cyntaf' NATO.**

**Cymysglyd oedd safiad Llafur — ac yn peri penbleth. Ar ddechrau'r ymgyrch dairwythnos dywedodd John Smith, Cadeirydd y Blaid Lafur Gymreig mewn cyfarfod cyhoeddus drefnwyd gan CND Cymru, ei fod yn ymfalchïo yn eu record. 'Rhoesom ddiarfogi unochrog ar yr agenda gwleidyddol ym 1987', meddai. O fewn diwrnodiau, newidiodd Kim Howells, yr ymgeisydd Llafur (a gynrychiolid gan John Smith) yr agenda, a haeru mai 'tacteg' oedd bellach wedi goroesi ei ddefnyddioldeb oedd diarfogi unochrog. Cefnogwyd ei sylwadau gan Neil Kinnock yn ddiweddarach yr un wythnos.**

**Cafodd penderfyniad y Blaid Lafur i ymosod ar ddiarfogi unochrog yn hytrach nag ar y Torïaid ymateb di-flewyn-ar-dafod gan Bruce Kent ar ei ymweliad â Phontypridd. Dangosodd fod ymgeisydd Plaid Cymru, Syd Morgan, yn berffaith glir ei safiad cefnogol i CND — yn wahanol i'w wrthwynebydd Llafur.**

**Taflodd yr ymgecru ei gysgod o reidrwydd dros wir bwrpas ymweliad Bruce Kent sef galw sylw at gasgliadau arolwg CND Cymru parthed agwedd yr ymgeiswyr i gyd tuag at arfau niwcliar. Dangosai hyn mor ddiamddiffyn a fuasai'r Torïaid wedi bod dan ymosodiad estynedig ar eu record.**

**Holodd CND Cymru 300 o bobl ym Mhontypridd y Sadwrn cyn y bleidlais a darganfod y buasai'n well gan 97% o'r cyfanrif weld y Llywodraeth yn gwario ar yr NHS yn hytrach nag ar arfau niwcliar pe caent y dewis. Dywedodd 65% y gellid amddiffyn Prydain heb arfau niwcliar ac 58% y dylai fod gwleidyddwyr yn gwneud mwy o ymdrech i'w diddymu.**

**'Roedd ymgeiswyr Plaid Cymru a'r Comiwnyddion yn mynegi'n ddi-flewyn-ar-dafod eu gwrthwynebiad i arfau niwcliar a'u cefnogaeth i sefyllfa CND. Strategaeth CND Cymru ar gyfer yr is-etholiad oedd pwysleisio mor allan-o-gynghanedd â'r mwyafrif oedd y Ceidwadwyr; eiddo Llafur, yn ôl pob golwg, oedd ceisio ynysu'r Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwcliar!**

**Ar waetha' gweithred Llafur yn mynd yn ôl ar eu gair, llwyddodd ymyrraeth CND Cymru yn yr is-etholiad i dynnu sylw at amddiffyn a dangos yn glir mor allan o gysylltiad â barn trwch y boblogaeth oedd y Torïaid. Yn ystod yr is-etholiad yn Nyffryn Morgannwg sydd ar ddod, y nôd fydd annog y gwrthbleidiau i ddangos allan ac ynysu'r ymgeisydd Ceidwadol.**

***James Stewart***

# O BONTYPRIDD I FRWSWEL,
## heibio Neuadd y Sir

Fe drafodwyd strategaeth wleidyddol mewn dwy sesiwn weithdy yn y gynhadledd. Yr etholiadau Ewropeaidd ym Mehefin oedd pwnc trafod un sesiwn a'r rhagolygon am 'Gymru Ddi-Niwclear' ar ôl etholiadau'r cynghorau sir ym Mai oedd y llall.

Cafwyd post mortem is-etholiad Pontypridd yn y gweithdy cyntaf ac yn arbennig ymgais CND Cymru i wneud amddiffyn a pholisi tramor yn bynciau trafod. Y wers fawr i'w dysgu ar ôl Pontypridd oedd yr angen am godi'r pwnc yn gynnar ar ddechrau'r ymgyrch rhag cael eich gwthio o'r neilltu yn y frwydr i geisio hoelio sylw'r cyfryngau a'r cyhoedd.

GWELEDIGAETH EWROPEAIDD

Ein bwriad ni yn achos yr etholiadau Ewropeaidd ydi codi mater heddwch mewn da bryd cyn diwrnod y pleidleisio o Ewrop newydd (y tu hwnt i'r Gymuned Ewropeaidd) — Ewrop wedi ei sylfaenu ar gydweithrediad a chydfyw mewn heddwch.

Fe ddylen ni anelu i wneud yn siwr fod y Cymry fydd yn cael eu hethol yn Aelodau Seneddol Ewrop yn gytun â'n gweledigaeth o Gymru ac Ewrop ddi-niwclear.

Mae'r anwybodaeth a'r difaterwch ynglŷn â Senedd Ewropeaidd yn achos cur pen, ond mae'r etholiadau hefyd yn gyfle euraid. Os allwn ni fynnu fod heddwch yn bwnc trafod ar y cychwyn, fe allai wedyn fod yn rhan o agenda'r ymgyrch fydd yn cael ei hymladd gan lawer ar seiliau 'lleol'.

A hithau'n ddeugeinfed penblwydd NATO, mae'n bwysig i ni dynnu sylw'r etholwyr at y ffaith mai'r un gwladwriaethau i bob pwrpas sy'n aelodau o'r Gymuned Ewropeaidd a'r gynghrair filitaraidd orllewinol.

Mi fydd CND Cymru yn mynd at bob ymgeisydd efo holiadur manwl ynglŷn â heddwch ag arfau niwclear — ac yn cyhoeddi'r canlyniadau. Ond mae gan grwpiau ac aelodau lleol swyddogaeth bwysig hefyd drwy gysylltu ag ymgeiswyr yn eu hardal nhw, sgwennu i'r papur lleol a threfnu cyfarfodydd cyhoeddus.

DI-NIWCLEAR?

Y prif bwnc trafod rhwng CND Cymru a'r cynghorau sir newydd fydd eu statws nhw fel 'ardaloedd di-niwclear'. 'Does yr un o'r wyth sir yng Nghymru wedi gwadu eu hymrwymiad gwreiddiol i'r Datganiad o blaid Cymru Ddi-Niwclear. Ac mae'n rhaid i ni ymorol o leiaf, y byddan nhw'n dal at hynny yn y dyfodol. Os oes yna symudiadau ar y gweill i gael gwared a'r datganiad, yna mi fydd raid i ni ymgyrchu i gadw Cymru yn ddi-niwclear. Y tu hwnt i hynny — mae'n rhaid i ni bwyso ar y siroedd Cymreig i gymryd camrau pendant i rymuso eu hymrwymiadau.

'Dyw hi ddim yn debygol y bydd yr un ohonyn nhw yn cefnogi cynlluniau i godi atomfeydd newydd na chladdu gwastraff niwclear. Er hynny simsan iawn yw eu record nhw ar gynllunio rhag rhyfel niwclear — amddiffyn sifil.

Mae cynghorau yn aml yn ymateb yn gadarnhaol os cyflwynir yr achos iddyn nhw mewn modd rhesymol, rhesymegol y gallan nhw eu hunain ei gyfiawnhau. Arnom ni mae'r cyfrifoldeb i gadw mewn cysylltiad â nhw a'u porthi nhw efo syniadau da.

# THREE MILE ISLAND

Mae deng mlynedd wedi mynd heibio ers 'damwain' Three Mile Island.

Am 4 o'r gloch y bore ar 28 Mawrth 1979, diddymwyd buddsoddiad gwerth biliwn o ddoleri a dechreuodd cyfnod y myth a'r cuddio. Wedi pedwar niwrnod o ddryswch llwyr, gallai'r 'arbenigwyr' haeru na fu marwolaethau na niweidiau — dim ond adweithydd yn mud-ferwi ond o dan reolaeth.

Yn eu hadroddiad i'r Arlywydd Carter ym 1979 dywedodd Comisiwn Kemeny fod effeithiau'r trychineb ar iechyd mor ddibwys fel y gellid eu hanwybyddu! Dair blynedd yn ddiweddarach, ym 1982, haerodd y CEGB na niweidiwyd un aelod o'r cyhoedd gan ymbelydredd darddai o drychineb Three Mile Island.

Fel y deuai'r ffeithiau gwirioneddol i'r wyneb, gellir gweld fod damwain Three Mile Island nid yn unig yn fygythiad i iechyd y cyhoedd, ond hefyd yn drychineb i'r diwydiant ynni niwcliar o ran cysylltwaith â'r cyhoedd. Mae'r cyfnod cêl i lawer o'r afiechydon achosir gan ymbelydredd dros chwe' mlynedd; a thua 10 mlynedd parthed achosi tyfiannau mewn oedolion fel rheol. Mae dros 2,000 o drigolion Pennsylvania ar y foment yn erlyn gweithredwyr yr orsaf, sef Metropolitan Edison, drwy haeru fod yr ymbelydredd ryddhawyd ym Mawrth 1979 yn achosi 'niwed marwol' iddynt. Mae Metropolitan Edison yn barod wedi talu allan dros 15 miliwn o ddoleri i ymateb i geisiadau am iawndal am niwed personol gan gynnwys taliad o filiwn o ddoleri i blentyn a anwyd â Down's Syndrome. Nid yw gweithredwyr yr orsaf byth eto wedi cydnabod eu bod yn euog o unrhyw drosedd, ond gwnaethant yn amod nad oedd neb i sôn yr un gair am yr achos yn yr achosion rheini a setlwyd ganddynt y tu allan i furiau'r llysoedd-barn.

Anfonodd Three Mile Island ei neges at bobl gyffredin led-led y byd, fod gweithfeydd ynni niwcliar yn llai diogel nag y perswadwyd hwy i dybio.

Mae ymddygiad y diwydiant niwcliar yn ceisio celu'r ffeithiau y tu ôl i'r damweiniau a gwrthod rhoi gwybodaeth teg am y peryglon sy'n wynebu poblogaeth y dalgylch wedi dwysau diffyg-ffydd y cyhoedd yn ddirfawr.

Cyhoeddwyd cais cynllunio Wylfa B — y cynnig cyntaf ar gyfer gorsaf PWR yng Nghymru ar Ebrill 7ed.

Ar y 23 o Chwefror pasiwyd y cynigiad i wrthwynebu lleoli unrhyw orsafoedd ynni niwcliar o'r newydd yng Ngwynedd gan y Cyngor Sir, o 39 pleidlais i 14. Bythefnos wedyn galwyd ar yr oll o Gynghorau Cymuned Ynys Môn mewn cyfarfod cyhoeddus yn Llangefni i drafod ac amlygu eu safiad parthed PWR yn Wylfa. Yn y cyfarfod clywyd fod deiseb gan un pentref ar yr ynys wedi cefnogi gwrthwynebu PWR gan 85% o'r oedolion.

Mae newid yn safiad barn y cyhoedd yng Nghymru, ond rhaid inni ochel rhag bod yn rhy ddifeind o ddylanwad propoganda'r Llywodraeth a'r CEGB o blaid ynni niwcliar. Deil ynni niwcliar i fod yn aneconomaidd a pheryglus.

DEIL CYNHYRCHU PLWTONIWM FEL TANWYDD AR GYFER RHAGLENNI ARFAU NIWCLIAR PRYDAIN A'R UNOL DALEITHIAU i fod yn un o'r prif amcanion.

# BRIAN KENNY A PHIL MILLS

I lawer ohonom ni roedd yr Ŵyl Heddwch yn Abertawe eleni yn achlysur o dristwch. Yn ystod y misoedd cyn yr Ŵyl, mi gollodd cangen Castell Nedd o CND — un o'r grwpiau a drefnodd Ŵyl, ddau o'i hysgrifenyddion.

Bu farw Phil Mills yn yr hydref. Roedd Phil y math o berson y mae pob grŵp CND ei angen — gŵr tawel, dibynadwy, trefnydd da a gadwodd y gangen efo'i gilydd, ac a ymgyrchodd yn ddirodres gyda'i holl ynni yn lleol a chenedlaethol.

Brian Kenny a lanwodd ei swydd fel ysgrifennydd CND, Castell Nedd, ond bu yntau farw fis Chwefror tra'n mynd am dro efo'i wraig, Sandra, ym Mro Gŵyr.

Fe ddeilliodd diddordeb Brian yn y mudiad heddwch o'i gariad mawr at natur a'i awydd angerddol i ddiogelu'r blaned yma rhag unrhyw ddifwyno niwclear. Roedd o'n adarwr, yn ymgyrchwr brwd lleol dros faterion yn ymwneud â'r amgylchedd, yn gerddor ac yn gyfaill brawdol i lawer ohonom yn y mudiad heddwch.



# PROTEST ALLTUD

Mae'r llun yma wedi cael ei anfon i Ymgyrch Cymru o Albany yng Ngorllewin Awstralia. Llun ydyw o Duncan Moon yn cael ei 'restio. Roedd o a'i deulu yn arfer byw yn Llandrillo cyn mudo i Awstralia. Ym mis Hydref 1988 mi fwrodd yr USS Brenton ei hangor yn nociau Albany. Ar ddiwrnod cyntaf ei hymweliad fe addurnwyd twr radar y llong efo'r faner — 'Gwnewch Albany yn Ddi-Niwclear'. Y diwrnod wedyn, ar ôl cael eu gwahardd o'r ardal, mi benderfynodd y protestwyr geisio mynd ar fwrdd yr USS Brenton o'r môr gan ddefnyddio 'kayaks' a chychod rwber. Ac am y tro cyntaf yn nyfroedd Awstralia mi benderfynodd aelodau o luoedd arfog America ddefnyddio gwn dŵr mawr i geisio cadw'r protestwyr draw. Cafodd tri o'r protestwyr eu harestio. Mi gafodd y digwyddiad sylw eang yn genedlaethol ac ar draws y byd ac o ddiddordeb i ni yw'r ffaith fod Duncan yn un o'r rhai 'restiwyd a'i fod yn gwisgo sgarff enfys CND Cymru — 'Rhowch gyfle i HEDDWCH.'

Mae'n sgarffiau ni yn cyrraedd pedwar ban y byd!



LYNELLE JONES a MARISSA ING o CND Penybont yn blasu cacen gan Carol Grose o CND Pontllanffraith.
LYNELLE JONES and MARISSA ING of Bridgend CND sample a cake made by Carol Grose of Pontllanffraith CND.

# Gŵyl Heddwch Abertawe

Roedd ar CND Abertawe awydd i'r Ŵyl Cymru Di Niwcliar fod yn ddiwrnod â chanddo gynifer o ddigwyddiadau nes denu pobl o bob oed a chwaeth o bob rhan o Gymru.

A dyna sut y digwyddodd "Diwrnod rhywbeth i Bawb". Cerddoriaeth a gwŷr hud a lledrith, corau ac areithiau, bwyd, gweithdai, llyfrau a baneri, nifer fawr o bobl (daeth tua 1,000), digon o blant — bu'r crèche a gŵyl y plant yn brysur trwy gydol y dydd.

Roedd hi'n dda gweld bod pobl dinas Abertawe wedi dringo'r allt i Athronfa Gorllewin Morgannwg i weld beth oedd CND wedi'i ddarparu, yn ogystal ag aelodau CND Cymru!

A chafodd bawb a ddaeth ac a arhosodd, ddiwrnod hyfryd, ac aethant oddi yno gan deimlo bod y mudiad heddwch yn rym positif a gweithredol ym mywyd Cymru.

Y prif siaradwr oedd Joan Ruddock, sy' nawr yn aelod seneddol yn Llundain. Siaradodd, fel arfer, yn dawel ac yn rymus, gan bwysleisio unwaith eto ei chefnogaeth lwyr i ddiarfogi niwcliar ym Mhrydain. Roedd hi'n falch o fod yn ôl yng Nghymru, yn dathlu seithfed penblwydd Datganiad Cymru Di-niwcliar, ond rhybuddiodd ni fod yna lawer o waith o'n blaenau, a bod angen ymroddiad — dim ond trwy gyd-weithredu y gellir datrys problemau byd-eang megis llygredd ac amddiffyn yr amgylchedd. Golyga'u datrys ddiwedd ar gystadlu militaraidd sy'n defnyddio arfau niwcliar.

Cydweithio, y mae'n rhaid iddo ddisodli cyd-fyw, oedd thema araith gan Mr Sergei Shilov, llysgennad diwylliannol o'r llysgenhadaeth Sofietaidd yn Llundain. Dywedodd fod yr Undeb Sofietaidd yn credu mewn creu byd di-niwcliar, di-drais, a bod Ewrop yn le perffaith i ddechrau ar y gwaith!

Yn ystod cyfnod o gwestiwn ac ateb gyda Joan Ruddock, gwnaeth argraff fawr ar y gynulleidfa, gan bwysleisio anghenrheidrwydd diarfogi a bod angen brys mawr i sicrhau cytundeb byd-eang yn gwahardd gwneud a defnyddio arfau cemegol sydd mor rhad a rhwydd i'w cynhyrchu ac mor erchyll eu canlyniadau. Treuliodd ef a'i wraig drwy'r dydd yn yr Ŵyl, a chyfarfod ag aelodau CND yn anffurfiol gyda'r nos.

Cofnodwyd digwyddiadau'r dydd gan CND Abertawe, a gwnaethpwyd video. Mi fydden nhw wrth eu bodd yn rhoi benthyg y rhain i'r grwpiau hynny fydd yn trefnu gwyliau'r flwyddyn nesaf — un yn y de ac un yn y gogledd, efallai.

Dymunai CND Cymru ddiolch i bawb a fu'n cynorthwyo i drefnu diwrnod mor ddifyr, a fu'n llwyddiant ariannol ac yn ymgyrch dda.

# PERSBECTIF PAWB

Ym mis Mawrth cyflwynodd mudiad Pobl Atal Wylfa B (PAWB), dystiolaeth i'r ymchwiliad cyhoeddus i gais y BCTC, i godi Adweithydd Dŵr Dan Bwysau, A.D.D.B., yn Hinkley Point. Dyma'r math o atomfa y bwriedir ei chodi yn Wylfa. Yn y dystiolaeth canolbwyntiodd PAWB ar gyflwyno'r pryderon cyhoeddus ynglŷn â'r ADDB yng nghyd-destun ymgais i ddatblygu persbectif Cymreig ar y diwydiant Niwclear. Mae PAWB yn argyhoeddedig fod y farn gyhoeddus yng Ngwynedd, bellach yn gryf yn erbyn rhaglen o ehangu niwcliar. Mae penderfyniad diweddar Cyngor Sir Gwynedd i wrthwynebu Wylfa B yn arwydd clir o hyn. Dangosodd polau piniwn dros y pedair mlynedd diwethaf bod rhwng 60% a 90% o bobl Cymru'n gwrthwynebu ehangu'r rhaglen ynni niwcliar.

## TREFNYDD I BAWB!

Mae PAWB (Pobol Atal Wylfa B) yn chwilio am drefnydd ymgyrch egniol, brwdfrydig, i weithio'n rhan amser o Ynys Môn. Cyfle i rywun sydd â'r gallu i drefnu a chyfathrebu'n effeithiol, i ddatblygu'r ymgyrch yn erbyn atomfa arall ar yr Ynys.

Mae'r Gymraeg, a'r gallu i deipio yn hanfodol i'r swydd yma. Cyflog: £82 am wythnos o 16 awr. Ceisiadau i fewn erbyn Mai 15ed. Manylion pellach oddi wrth PAWB, 10 Tan y Bonc, Porthaethwy, Ynys Môn, Gwynedd.

## AELODAU CND CYMRU

I hyrwyddo'r ymgyrch yn erbyn Wylfa B, ac i dalu am y swyddog uchod, mae'n rhaid i PAWB gael ARIAN. Cyfraniadau, os gwelwch yn dda, i Sioned Huws, PAWB, 10 Tan y Bonc, Porthaethwy, Ynys Môn, Gwynedd. Sieciau i "PAWB".

Mewn unrhyw ddadansoddiad o beryglon, megis dadansoddiadau risg gan gwmniau yswiriant, edrychir ar systemau yn eu cyfanrwydd. Hynny yw, edrychir ar y rhwydwaith o risg neu beryglon. Rhaid gwneud yn gyffelyb gyda'r diwydiant niwcliar. I asesu'r peryglon mae'n ofynnol edrych ar yr holl rwydwaith niwcliar, cyfanswm y risg sy'n gysylltiedig â phob un o'r camau dilynol yn y broses o drawsnewid Wraniwm i Blwtoniwm.

1. Y peryglon a'r ecsploitio sy'n gysylltiedig â mwyngloddio Wraniwm. Yn yr Unol Daleithiau mae 1 o bob 6 mwyngloddiwr Wraniwm yn dioddef cancr yr ysgyfaint. Ers 1978 daeth hanner mewnforion Wraniwm Prydain o ecsploitio adnoddau naturiol a mwyngloddwyr Namibia yn groes i benderfyniad a chyfarwyddyd y Cenhedloedd Unedig.

2. Y peryglon sy'n gysylltiedig â phrosesu Wraniwm ar gyfer yr atomfeydd a'r bomiau niwcliar.

3. Ar ôl Three Mile Island a Chernobyl daeth effeithiau damweiniau yn yr atomfeydd yn wybyddus i bawb. Fel y dywedodd Syr Frank Layfield yn ei adroddiad ar ADDB Sizewell B:-

Nid oes y fath beth â diogelwch perffaith — yr ydym wedi dysgu trwy brofiad fod damweiniau'n digwydd.

4. Y peryglon sy'n codi o gludo, trin, ystorio a chladdu'r gwastraff niwcliar.

5. Fel y dangosodd CND yn ei dystiolaeth i ymchwiliad Sizewell mae cysylltiad clos rhwng y defnydd sifil a'r defnydd milwrol o Wraniwm. Dim ond mor ddiweddar â mis Mawrth 1986 y cyfaddefodd Lord Marshall, Cadeirydd y BCTC, bod Plwtoniwm o adweithyddion y BCTC yn cael ei ddefnyddio ar gyfer arfau niwcliar. Ni ellir ymddihatru ymledaeniad atomfeydd ac ymledaeniad arfau niwcliar.

Byrdwn persbectif PAWB yw os edrychir ar rwydwaith risg y cylch Wraniwm — Plwtoniwm bod cyfanswm y risg yn annerbyniol. Afresymol ac anfoesol yw bod yn barod i fachu rhai o fanteision honedig atomfeydd tra'n diystyrru'r peryglon cysylltiedig; damweiniau yn yr atomfeydd, y gwastraff ac ymledaeniad arfau niwcliar. Cred PAWB hefyd bod ffyrdd saffach a rhatach o gynhyrchu trydan a fuasai'n llawer mwy buddiol i'r rhelyw o drigolion Cymru.

Un o anfanteision prif ffrwd y diwylliant Engl-Americanaidd yw'r rhaniad llafur deallus sy'n nodweddu'r meddylfryd imperialaidd. Cynnyrch y fath ddiwylliant yw arbenigwyr un-




llygeidiog, gwrywol bron yn ddieithriad, sy'n ei chael hi'n anodd dirnad persbectif fwy crwn ar y byd. Dadlenir bod ffordd ymwybodol Gymreig o edrych ar y byd yn fodd i weld pethau yn eu cyfanrwydd. Wrth edrych ar Abertawe yn llosgi yn y blitz yn yr Ail Ryfel Byd mynegodd Waldo Williams ei ddealltwriaeth o pam bod dynoliaeth yn cyflawni'r fath anfadwaith yn nhermau,

"Y rhemp sydd i law'r dadelfennwr
A gyll rhwng ei fysedd, fyd"

Mae'r ddwy linell hon yn crynhoi'r meddylfryd niwcliar cyfoes; y rhaniad llafur deallusol sy'n peryglu'r blaned hon. Un o gryfderau PAWB yw y gall dynnu o gefndir Cymreig i gynnig gwerthoedd gwahanol a phersbectif fwy crwn i harnesu'r gwrthwynebiad i gynllwyn Wylfa B ac felly gyfrannu i'r broses o greu byd yn rhydd o ornes niwcliar.

**Selwyn Williams**



**Ann Lukes, Jill Evans (Is-gadeirydd newydd CND Cymru) a Carol Westall, cyn iddynt ddatgan eu gwrthwynebiadau i Ymchwiliad Hinkley Point yng Nghaerdydd.**
**Ann Lukes, Jill Evans (new vice-chair of CND Cymru) and Carol Westall as they wait to put their objections to the Hinkley Point Inquiry in Cardiff.**

# Adroddiad o'r Gynhadledd

Rhoddodd yr Ŵyl Ddi-Niwcliar yn Abertawe a'r Gynhadledd Flynyddol yn Aberystwyth hwb ychwanegol i ymgyrchwyr a all fod yn ei chael hi'n anodd i ddal i bwyso am ddiarfogi niwcliar.

Dangosodd y ddau ddigwyddiad y gall CND Cymru barhau i ddibynnu ar grwpiau gweithredol drwy Gymru benbaladr, a sylfaen o gefnogwyr sy'n ymledu ymhellach o lawer na'r gweithredwyr yn unig.

Dydd o ddathlu oedd yr Ŵyl, ond sesiwn o waith oedd y gynhadledd a'i nod oedd diffinio'r ymgyrch yn fwy eglur. Fe'i cynhaliwyd eleni yn yr Hen Goleg yn Aberystwyth a chafwyd menter newydd llwyddiannus sef 'social' noswyl y Gynhadledd, a drefnwyd ar y cyd gan CND Aberystwyth, 'Hungry for Change' ac 'Anti Apartheid'.

Cyhoeddodd Veronica Wood, yr Ysgrifennydd Cyffredinol fod nifer yr aelodau cystal ag y bu, a bod cymdeithasau newydd yn dal i ffurfio ac ymaelodi. Awgrymodd y dylai aelodau annog eu cynghorau cymunedol i gefnogi CND Cymru. (gweler tudalen ganol).

Dangosodd adroddiad y trysorydd Maggie Verrinder gyllideb o oddeutu £27,000 y flwyddyn, gyda'r derbyniadau a'r gwariant wedi codi'n sylweddol yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

Mae'r gost o gyhoeddi a dosbarthu pedwar rhifyn o Campaign Wales i'r dair mil a hanner o aelodau rhwng pum mil a chwe mil o bunnoedd. Mae cyflog a chostau teithio ein Trefnydd Ymgyrchu (James Stewart) tua £12,000. Rhain ydi'r prif eitemau y mae'n rhaid gwario arnyn nhw.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cyrraedd safle lle gall digwyddiadau ac ymgyrchoedd fod yn hunan-gynhaliol hyd y mae'n bosibl. Yn Aberystwyth, casglwyd £300 mewn rhoddion.

Etholwyd y swyddogion a ganlyn gan y gynhadledd ar gyfer 1989-90: Rhodri Glyn Thomas (cadeirydd); Jill Evans, Katrina Gass, Ann Hall a Rod Stallard (dirpwy-gadeiryddion); Maggie Verrinder (trysorydd); mae Veronica Wood a James Stewart yn parhau yn Ysgrifennydd Cyffredinol a Threfnydd Ymgyrchu.

# POBL -AT-BOBL

Mae mudiadau heddwch Ewrob ac America yn uno a chydweithio â'i gilydd i roddi terfyn ar arfau niwcliar a cheisio ymgyrraedd at gael heddwch parhaol.

Yng Nghynhadledd Blynyddol CND Cymru eleni, casglwyd syniadau tuag at greu rhwydwaith â Gogledd America, ac yn arbennig felly â'r Unol Daleithiau.

Mae angen arnom i gefnogi ein gilydd ar draws yr Iwerydd er gweithio i sicrhau heddwch a chyfiawnder cymdeithasol. Rhaid inni weithio'n rhyng-genedlaethol i wrthwynebu'r uniad ariannol/militaraidd/cyfryngol sy'n dal i ddatblygu a hel arian at gynhyrchu mwy o arfau llawer mwy angeuol.

Yn y gweithgor bwriwyd golwg ar ddulliau ymarferol i ohebu a chysylltu â'n cyfeillion yng Ngogledd America. Yma yng Nghymru gallwn yrru llythyrau i'r wâsg leol yn sôn am yr 'America arall'. Rhaid sarnu'r 'ystrydeb Dallas':

— mae dros 7,000 o grwpiau heddwch a chyfiawnder cymdeithasol yn yr UDA
— mae tlodi a diweithdra eang yn yr UDA
— mae 1 o bob 7 o blant yno yn byw islaw ffîn tlodi
— mae dros 160 o ranbarthau di-niwcliar ar hyn o bryd yn yr UDA.

Awgrymwyd hefyd fod CND Cymru yn paratoi taflen i'w rhannu yn yr Eisteddfodau a'u gyrru i gymdeithasau Cymraeg yr UDA a Canada. Gellid pwysleisio'r cyswllt sydd rhwng tlodi â'r râs arfau; amlinellu gwrthwynebiad i sefydliadau milwrol yr UDA yn arbennig Breudreth; ac efallai y buasai'n beth da hefyd i atgoffa' disgynyddion yr ymfudwyr rheini o Brydain o'r symbyliad y tu ôl i'r symud — tlodi? gorthrwm crefyddol? gorthrwm diwylliannol? Mae cysylltiad rhwng hyn a'r gormes sydd ar droed ar hyn o bryd ar warrau'r Americanwyr brodorol drwy i'r Llywodraeth ddwyn tir i'r pwrpas o fwyno Iwraniwm ac arbrofi arfau niwcliar. (Un ddolen gyswllt yw Karen Muller. 838, Elgin, Forest Park, IL 60330, UDA, sydd ar hyn o bryd yn ysgrifennu llyfr ar y cyswllt Cymreig rhwng Madog a'r Indiaid Mandan)

Gall unigolion neu grwpiau ysgrifennu at y cymdeithasau Cymraeg neu'r trefi hynny sydd â chysylltiad Cymreig sylweddol. Gall y neges daro'n bellach drwy ysgrifennu i'r papur *lleol* yn yr UDA. Os rhowch wybod enw'r dref i mi gallaf anfon enwau a chyfeiriadau'r papurau lleol i chwi.

Gwyddom am ddau bapur-newydd Cymraeg: 'Ninnau', c/o Earl T. Williams Jr, 10 Hemingway Road, North Haven Ct, 06473 UDA; 'Y Drych', c/o Alan Hughes, 329 Queenston Street, St Catherine's, Ontario, Canada, L29 2X8.

Gyda help Suzanne George y gantores Gymraeg sydd wedi bod ar daith yng Ngogledd America, heliais restr o rai â chysylltiadau Cymreig, a gallaf yrru y rhain i chwi. Buasem yn falch o gael gwybodaeth am fwy o enwau cysylltiaid posib'. Oes yna grwpiau-iaith-Cymraeg heddwch yng Ngogledd America?

Trwy Ymgyrch Cymru hoffwn ddatgan fy niolch i bawb am y croeso cynnes a gefais yn y Gynhadledd.

Rae Street, Calder Cottage, Hare Hill Rd., Littleborough, Lanc. OL15 9HG. (0706) 78043

# YMLAEN Â CND CYMRU

I'r rhai hynny yn ein plith sy'n ystyried i ble 'rydym ni'n mynd yn 1989 a thu hwnt, cystal fyddai edrych ar baragraff agoriadol ein Cyfansoddiad.

'CND Cymru yw'r ymgyrch genedlaethol dros ddiarfogi niwcliar yng Nghymru, ac y mae'n drefniant cenedlaethol o fewn CND Prydain, ac iddi'r amodau a ganlyn:

"Bwriad yr ymgyrch dros Ddiarfogi Niwcliar yw dileu unochrog ar arfau niwcliar gan Brydain, ar sefydliadu milwrol niwcliar, ac ar gynghreiriau niwcliar, hyn i rhagflaenu polisi tramor Prydeinig a fydd yn sicrhau dileu arfau niwcliar, cemegol a biolegol ar raddfa fyd-eang, ac yn arwain at y nod yn y pen draw sef diarfogi llwyr a chyffredinol.

Mae CND yn gwrthwynebu pob creu, profi, defnyddio a bygwth defnyddio ar arfau niwcliar, cemegol neu fiolegol gan unrhyw wlad, ac yn gwrthwynebu hefyd bolisïau unrhyw wlad neu grwp o wledydd a wna ryfel niwcliar yn fwy tebygol neu sy'n rhwystro symud tuag at fyd heb arfau fedr achosi dinistr torfol.

Polisïau CND Prydain yw'r rhain onibai lle'u newidir gan gynhadledd flynyddol CND Cymru."

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cynnwys y swyddogion etholedig, yr ysgrifennydd a'r sawl sydd â chyfrifoldebau arbennig yn yr ymgyrch.

CND a'r Grwpiau Heddwch o fewn Cymru yw'r cymdeithasau ymgyrchu lleol.

Ac mor bwysig a'r rhain i gyd, ydi aelodau CND Cymru, y bobl hynny o bob cwr o Gymru sy'n cefnogi'r mudiad.

# A.W.E. CAERDYDD
## Y Sefydliad Arfau Atomig

Fe fuodd y brotest 'eistedd i lawr' y tu allan i'r Sefydliad Arfau Atomic yn Llanisien, Nghaerdydd, ar ddydd Gŵyl Dewi yn llwyddiant ysgubol. Fe ddaeth pobol i gymryd rhan yn y brotest o lefydd mor bell â'r Alban; cafwyd cefnogaeth frwd gan bobol oedd yn pasio heibio, ac fe ddaeth criw da at ei gilydd ar gyfer yr achlysur. Bu'r heddlu wrthi'n brysur drwy'r dydd yn llusgo protestwyr o gyffiniau'r giatiau ond trwy lwc chafodd neb ei 'restio.

Fe dynnodd y brostest sylw at swyddogaeth bwysig y ffatri wneud ffrwydron niwclear yng Nghaerdydd fel rhan o gynllun Trident. Mae sustem Trident i fod yn weithredol ymhen llai na phum mlynedd, ac fe fydd protestiadau y tu allan i'r ffatri yng Nghaerdydd yn y dyfodol yn rhan allweddol o'r ymgyrch gwrth-Trident.

Mae'r Sefydliad Arfau Atomic yn y gorffennol wedi bod yn ganolbwynt pob math o brotest — cyfarfodydd cyhoeddus, gorymdeithiau mawrion, gweithrediadau gan bartïon bychain a chadw noswyliau. Er mwyn ymorol fod y cyhoedd yn ymwybodol o'r lle a'i swyddogaeth mae angen parhau gyda phrotestiadau tebyg, llawn dychymyg sy'n debyg o ddenu sylw'r cyfryngau. Mae protestiadau mawr efo cannoedd yn bresennol yn ffordd effeithiol o ddangos cryfder ein gwrthwynebiad i Trident. Ond na ddiystyrwn weithrediadau trawiadol grwpiau bychain a all fod yr un mor apelgar i'r wasg a'r cyfryngau.

Fe fydd ein hymgyrch yn erbyn yr hyn sy'n digwydd yn y ffatri yng Nghaerdydd yn rymusach hyd yn oed os darganfyddwn ni fwy am y lle. Mae yna lawer iawn o waith o hyd i'w wneud i weld yn union beth sy'n digwydd y tu ôl i'r weiran yn y Sefydliad Arfau Atomic. Po fwyaf y byddwn ni yn ei wybod am gyfrinachau'r ffatri, yr hawsaf yn y byd fydd hi i ddinoethi bygythiad y lle i bob un ohonom ni.

Eich cefnogaeth CHI BOB UN ydi'r peth mwyaf allweddol ynglŷn ag unrhyw ymgyrch yn erbyn y ffatri yn y dyfodol. Mae Trident a rôl ffatri arfau Caerdydd yn yr holl gynllun, yn faterion cenedlaethol o'r pwys mwyaf — felly peidiwch â gadael pobol yr ardal i ysgwyddo'r holl faich. Dowch draw a threfnwch eich protestiadau eich hunain y tu allan i ffatri fomiau Caerdydd.




Protest Dydd Gŵyl Dewi tu allan i AWE Llanisiern, Caerdydd.

### CYNGHORAU CYMUNED AG CND CYMRU

Ydach chi'n credu y buasai'ch cyngor cymuned chi yn ymaelodi ag CND Cymru? Mae amryw byd eisoes wedi gwneud. Mi allaf i sgrifennu llythyr swyddogol atyn nhw fel ysgrifenyddes gwrpiau. Fe allai cynghorydd cymuned sydd â chydymdeimlad â'r achos ymorol fod y llythyr yn cael ei ddarllen yn un o'r cyfarfodydd ac fod yna drafod ar y pwnc. Yn sicr mae'n werth rhoi ystyriaeth fanwl i hyn. Sgrifennwch neu ffoniwch fi wedyn efo enw'r Cyngor, y Clerc, ac os yn bosib — enw cynghorydd sydd â chydymdeimlad. Rhoda Jones, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd LL41 4LS. (0766) 762739

### IS YOUR COUNCIL AFFILIATED?

Would your local Community Council affiliate to CND Cymru? Many have already done so. I can write an official letter, as our Affiliated Secretary. A Community Councillor, who is sympathetic can make sure that the letter is read out and the issue discussed. Please think about this and either write or phone with the name of the Council, the Clerk and, if possible, that of a supportive Councillor.

Rhoda Jones, Tŷ Isaf, Ffestiniog, Gwynedd LL41 4LS. (0766) 762739

### FFURFLEN AELODAETH AR GYFER EICH FFRINDIAU
### MEMBERSHIP FORM FOR YOUR FRIENDS

Enw/Name .............................. Llythrennau bras/capital letters

Cyfeiriad/Address ..................................................

..................................................................

Sir/County ................................ Côd Post/Postcode.........

**Membership/Tâl Aelodaeth**
Oedolyn/Adult £9 Cwpl/Couple £12
Myfyriwr/Student, Ieuenctid/Youth,
Heb waith a phensiynwyr/Unwaged and pensioners - all £3

Dymunaf roi rhodd/I wish to make a donation £......
Am aelodaeth amgaeaf/For membership I enclose £......

Gwneler sieciau'n daladwy a danfoner i:/Make cheques payable and sent to:

*CND Cymru, 56 Bryn Aeron, Dyfnant, Abertawe/Swansea SA2 7UX*

# A.W.E. CARDIFF
## March 1st and Beyond

The St. David's Day sit-down at Cardiff's Atomic Weapons Establishment (Llanishen) was a successful day by anyone's standards. People came to the demonstration from as far away as Scotland; passers-by gave lots of support, and there was a very respectable turn-out for the event. The police were kept busy dragging protestors away from the factory gates throughout the day, but happily there were no arrests.



St. David's Day protest outside AWE Llanishen, Cardiff.

The sit-down drew attention to the role Cardiff's nuclear warhead factory is playing in the Trident programme. Trident is due to enter service in less than five years time, and future protests based around the Atomic Weapons Establishment will play an important part in the anti-Trident campaign.

In the past the Atomic Weapons Establishment has been a focus for mass marches, regular weekly vigils, and every type of protest event from public meetings to parties. Similar varied and imaginative demonstrations which highlight the deadly work which goes on there will ensure that the factory remains in the public eye. Mass protests involving hundreds of people are a powerful way of showing the strength of our opposition to Trident, but stunts involving just a handful of demonstrators can be equally attractive to the press and media.

Our campaign against warhead production at the Atomic Weapons Establishment will seem even stronger if we argue from a well-informed position. There is still a great deal to be found out about what really goes on behind the wire at the Atomic Weapons Establishment, and the more we know about the factory's secrets the easier it will be to expose the threat it poses to us all.

The most important ingredient in future campaigning at the AWE is YOU!! The Trident programme and the role of the Atomic Weapon's Establishment in that programme are national issues, so don't leave it to the locals — come along and organise your own protest at Cardiff's bomb factory.

## DYDDIADUR

**MAI**
**1** Gorymdaith trwy dref Aberystwyth; wedi'i trefnu gan CND, ymgyrch yn erbyn Treth y Pen, a Chynghorau Masnach. Gadael Park Avenue am 1 p.m., rali am 6 p.m. yng Ngwesty'r Marine.

**MEHEFIN**
**16-18** Gŵyl Glastonbury, Worthy Farm, Pilton, Somerset. Ticedi oddi wrth CND, 22-24 Underwood St., Llundain, neu siopau recordiau da.
**24** Cyngor CND Cymru 10.30 a.m., Bryn Afon, Rhayadr, Powys. Croeso i gynrychiolwyr ac unigolion.

**GORFFENNAF**
**1** Gŵyl "Diwrnod Annibyniaeth America". Canolfan llynges yr UDA, Breudeth, Dyfed. Dowch â'r teulu a ffrindiau am wersyll heddwch dros y penwythnos. Manylion oddi wrth Rod Stallard, (0994) 8529 neu James Stewart (0222) 832275.
Mae CND Ieuenctid Cymru am wneud hwn yn benwythnos difyr a chyffrous i gynifer ag y bydd modd o'r aelodau a'u cyfeillion. Cysyllter â Joanne Castle, 25 Aberystwyth Crescent, Y Barri, De Morgannwg CF6 8EH (0446) 738020.
**22-29** Gŵyl Heddwch De Morgannwg (0222) 832275.

## DIARY

**MAY**
**1** Aberystwyth March and Rally. March through the town organised by CND, Anti Poll Tax Campaign and Trades Council will leave Park Avenue at 1 p.m. Rally at Marine Hotel at 6 p.m.

**JUNE**
**16-18** Glastonbury Festival, Worthy Farm, Pilton, Somerset. Tickets obtainable from Underwood Street, and good record shops.
**24** Cyngor CND Cymru 10.30 a.m., at Bryn Afon, Rhayadr, Powys. Group representatives and individual members welcome.

**JULY**
**1** American Independence Day Festival at US Base, Brawdy, Dyfed. Bring family and friends for a weekend peace camp at Newgale Sands, Brawdy. Details from Rod Stallard, (0994) 8529 or James Stewart (0222) 832275.
YCND CYMRU are planning to make this an exciting and enjoyable weekend for as many members and friends as possible. Contact Joanne Castle, 25 Aberystwyth Crescent, Barry, South Glamorgan CF6 8EH (0446) 738020.
**22-29** South Glamorgan Peace Festival (0222) 832275